

Rydym yn moderneiddio'r broses reoleiddio oherwydd...

...rydym ni'n credu bod ffyrdd mwy effeithiol, modern ac effeithlon i sicrhau bod gan bobl fwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae systemau bwyd byd-eang ac arloesedd busnesau wedi datblygu'n gyflymch na'r ffordd yr ydym ni bob amser wedi rheoleiddio. Mae angen prosesau rheoleiddio mwy hyblyg ac ystwyth arnom yn y byd newydd hwn. Mae hyn yn cynnwys busnesau'n cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch bwyd, a defnydd effeithlon o adnoddau awdurdodau lleol. Mae ein dull wedi ei gefnogi gan adolygiad diweddar Swyddfa'r Cabinet ar Ddyfodol Rheoleiddio, ac mae'n denu diddordeb rhyngwladol gan ein cyfoedion.

1 PRIF NODYN

RHEOLEIDDIWR CRYF

Mae'r diwydiant bwyd yn cydnabod bod rheoleiddiwr cryf yn sicrhau cysondeb ac o fudd i bawb. Felly, ar y cyd â'r diwydiant a rhanddeiliaid, rydym yn llunio model rheoleiddio newydd. Bydd yr ASB yn gosod y safonau y bydd gofyn i fusnesau eu gweithredu, ac yn defnyddio technoleg newydd a'r data a gesglir gan fusnesau o'u harchwiliadau a'u gwiriadau eu hunain, er mwyn gweld beth sy'n digwydd bob dydd, nid ar y diwrnod arolygu yn unig.

2 PRIF NODWEDDION

- Yr ASB yn gosod y safonau yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr awdurdod cymwys canolog
- Cefnogi busnesau newydd i gydymffurfio'n gywir o'r cychwyn cyntaf
- Cyfle i ddefnyddio data'r busnesau eu hunain i fonitro cydymffurfiaeth
- Ymyriadau mwy effeithiol os nad yw busnes yn bodloni'r safonau
- Wedi'i lunio ar y cyd â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sbectrum bwyd
- Creu cyfleoedd i drydydd partion ddarparu sicrwydd achrededig

SEGMENTU

Byddwn yn teiwra rheoleiddio yn dibynnu ar lefel y risg. Mae hyn yn golygu gwneud gwell defnydd o'r holl wybodaeth sydd ar gael wrth benderfynu pa safleoedd bwyd sy'n peri'r risg fwyaf.

Byddwn yn cydnabod y rheiny sydd wedi dangos y gallant gydymffurfio'n gyson â'r gofynion sy'n ofynnol i ddiogelu iechyd.

COFRESTRU PELLACH

Mae gwybod mwy am bob busnes, pwy ydyn nhw a beth maent yn ei wneud, yn hanfodol.

Bydd hyn yn ein caniatáu i sicrhau bod busnesau'n deall beth a ddisgwyllir ganddynt, ac y cânt eu cefnogi o'r cychwyn cyntaf.



SICRWYDD A SAFONAU

Bydd yr ASB yn gosod y safonau yn rhinwedd ei swydd fel yr awdurdod cymwys canolog.

Ein hegwyddor sylfaenol yw bod disgwyl i fusnesau gydymffurfio â chyfraith bwyd. Byddwn yn ystyried ffynonellau gwybodaeth priodol er mwyn tystio i allu busnes i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

DIGWYDDIAD

Bydd ymyriadau'n digwydd pan fo busnes yn methu â chyrraedd y safonau, a bydd eu system sicrwydd yn cael ei hadolygu.

Byddwn yn cynyddu lefelau gorfodi pan fo busnesau'n methu â gwneud beth sy'n iawn i ddefnyddwyr, a chosbau ailymweld i fynd i'r afael â'r rheiny nad ydynt yn cydymffurfio.



RHEOLEIDDIO EIN DYFODOL – RHAGLEN O NEWID

AMSERLEN

IONAWR-RHAGFYR 2017:

- Nodi'r buddiannau sylfaenol
- Fframwaith statudol ar gyfer codi tâl
- Diffinio parthau data / ffynonellau gwybodaeth (*intelligence*)
- Modelu / asesiadau effaith

IONAWR-RHAGFYR 2019:

- Trosglwyddo Gweithredwyr Busnesau Bwyd i'r gofrestr newydd
- Segmentu Gweithredwyr Busnesau Bwyd
- Achrediad UKAS
- Mesur buddiannau ar ôl gweithredu

IONAWR-RHAGFYR 2018:

- Profi ymateb defnyddwyr
- Fframwaith Archwilio Rheoleiddio Ardystiedig
- Ymgysylltu â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth
- Ffyrdd o godi tâl

IONAWR 2020:

- Model Rheoleiddio ein Dyfodol yn weithredol

3

CYNNYDD HYD YMA

- Lansio Grwpiau Cyngori Arbenigol ar gyfer defnyddwyr, y diwydiant a gweithwyr proffesiynol
- Cyflawni amrywiaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Creu ail fersiwn o'r Model Gweithredu Targed
- Gweithredu'r adnodd arbenigol i archwilio'r elfen ddata yn systematig
- Dirwyn treialon archwilio â Tesco a Mitchell and Butler i ben

4

UCHAFBWyNTIAU'R BROSES

- Cynnal digwyddiadau 'Hot House' â rhanddeiliaid
- Defnyddio safbwyntiau cychwynnol defnyddwyr a busnesau bach a chanolog i ddatblygu'r Model Gweithredu Targed
- Ynghyd â Phrif Awdurdodau, eu busnesau partner ac Adran Rheoleiddio BEIS, datblygu dull o gyflwyno'r Strategaethau Arolygu Cenedlaethol
- Derbyniad Seneddol

5

EIN NOD

Bydd rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol yn newid y ffordd caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio a'u harchwilio yn llwyr ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y nod yw cael system newydd ar waith erbyn 2020.

Mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd canlyniadau penodol ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ond gallwn fod yn sicr y bydd yn gofyn am system reoleiddio bwyd fodern: rhywbeth hyblyg, ystwyth a chadarn. Bydd sicrhau model rheoleiddio newydd sy'n gweithio, yn ei dro, yn rhoi i ni fwy o rym i ddiogelu defnyddwyr gyda system fwyd fyd-eang sy'n esblygu ar ras. Fe allai hefyd ehangu ein dylanwad rhyngwladol ar safonau bwyd modern. Rydym eisiau i'n system fwyd barhau i fod ar y safon aur y mae gwledydd eraill yn beirniadu eu systemau nhw yn ei herbyn.